NICE National Institute for Health and Care Excellence

Tabledi cladribine i drin sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol

6 Rhagfyr 2017

Mae tabledi cladribine (Mavenclad) ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer sglerosis ymledol gweithredol iawn mewn oedolion sydd â:

- sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol difrifol sy'n datblygu'n gyflym (hynny yw, o leiaf 2 achos o ailwaelu yn y flwyddyn flaenorol ac o leiaf 1 briw T1 sy'n dod i'r amlwg pan ddefnyddir gadoliniwm mewn prawf MRI sylfaenol) neu
- sglerosis ymledol atglafychol-ysbeidiol nad yw wedi ymateb yn ddigon da i therapi sy'n addasu clefyd (hynny yw, 1 achos o ailwaelu yn y flwyddyn flaenorol a thystiolaeth MRI o weithgarwch clefyd).

Os nad ydych yn gymwys i gael tabledi cladribine, ond rydych eisoes yn eu cymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymdeithas Sglerosis Ymledol, 0808 800 8000
- Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol, 0800 032 3839

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2744-9

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights